CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR
CYNHALIWYD AR 27 MAWRTH 2024 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Ddinesig San Pedr yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Maer, Cyng. Wyn Thomas, oedd yn llywyddu dros y cyfarfod.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Tom Defis, Dai Evans (Fideo), Peter Hughes Griffiths, Gareth John (Fideo), Andy King (Fideo), Alun Lenny (Fideo), Emlyn Schiavone, Russell Sparks, Wyn Thomas, Barry Williams (Fideo).

Emma Smith – Clerc y Dref
Wendy Dickson – Dirprwy Clerc y Dref
Tudur Jones - Cyfieithydd (Fideo)

376. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Angharad Jones Leefe, Arwel Lloyd, Ioan Matthews, Aled Williams, Luned Voyle.

377. Datgan Buddiannau

Cyng. Tom Defis i Eitem 384(i) fel trysorydd i Ynni Sir Gâr.

378. Cwestiynau gan aelodau

Dim

379. Cwestiynau gan y cyhoedd

Dim

380. Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 28ain o Chwefror 2024

Cynigiwyd gan y Cyng. Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths, a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 28ain o Chwefror 2024 fel cofnod cywir.

381. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12fed o Fawrth 2024

Cynigiwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths eiliwyd gan y Cyng. Barry Williams, a **PHENDERFYNWYD** fod cofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar y 12fed o Fawrth 2024 yn cael eu derbyn fel cofnod cywir.

382. Materion yn codi o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol

i. Tud 105: Eitem 364 – Basgedi Crog

Nododd y Cyng. Peter Hughes Griffiths ei gefnogaeth i'r gwaith partneriaeth cymunedol ac roedd yn ddiolchgar am y buddion a ddaeth i'r gymuned.

Penderfynodd aelodau y dylid **CYMERADWYO'R** argymhelliad fel a nodwyd yng nghofnodion Pwyllgor Dibenion Cyffredinol ar gyfer y 12fed o Fawrth 2024.

383. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 14eg o Fawrth 2024

Rhoddodd y Clerc wybod am newid i'r Grantiau Bach a'r Cyfraniadau Cymorth Ariannol y cytunwyd arnynt yn ystod Pwyllgor Cyllid 14 Mawrth 2024.

Bydd Opera Ieuenctid Caerfyrddin a Chorfflu Hyfforddiant Awyr Sgwadron 621 yn derbyn rhodd oddiwrth Ras y Maer 2024 ac felly ni fyddent yn derbyn rhodd gan gronfa Grantiau Bach a Chymorth Ariannol y Cyngor.

Cynigiwyd gan y Cyng. Tom Defis, eiliwyd gan y Cyng. Andy King a **PENDERFYNWYD** bod y cofnodion, yn amodol ar y newid a nodir uchod, o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2024 yn cael eu derbyn fel cofnod cywir.

384. Materion yn codi o'r Pwyllgor Cyllid

i. Tud 107: Eitem 374 – Penodi Gweithiwr ynni Cynaliadwy Proffesiynol i gynnal astudiaeth dichonoldeb yni cymunedol.

Penderfynodd aelodau y dylid **CYMERADWYO'R** argymhelliad fel a nodwyd yng nghofnodion Pwyllgor Cyllid ar gyfer y 14eg o Fawrth 2024.

Adroddiad Clerc y Dref

385. Cynllunio

Dim.

386. Materion Prifyrdd

Dim

387. Materion Trwyddedu

Math o Gais: **Cais am Drwydded Safle**
Enw a Chyfeiriad yr Eiddo: **Unted Counties Showground, Ilysonnen Road, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA33 5DR.**
Manylion y cais: **Cais am:**
Cyflenwi Alcohol: Dydd Gwener – Dydd Sul 12:00 – 22:30
Cerddoriaeth fyw: Dydd Gwener – Dydd Sul 16:00 – 23:00

Cerddoriaeth wedi ei recordio: Dydd Gwener – Dydd Sul 12:00 – 23:00 28fed Mehefin – 30 fed Mehefin 2024.
Cyfnod ymgynghori yn dechrau: **18/03/2024.**
Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau ynghylch y cais hwn o fewn **28 diwrnod** ar ôl y dyddiad uchod sef dyddiad dechrau'r cyfnod ymgynghori - **DIM GWRTHWYNEBIAD**

388. Cyfrifon misol ychwanegol

Fe wnaeth yr aelodau graffu ar y taliadau ac roedden nhw'n fodlon gyda'r rhestr. Cynigiodd y Cyng.Tom Defis y dylai'r rhestr o daliadau gwerth **£132,532.77** gael ei gymeradwyo a'i lofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc gyda Cyng. Russell Sparks yn eilio y cynnig. Cytunodd yr holl aelodau a **PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r holl daliadau.

389. Aelodaeth Un Llais Cymru

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau ei bod wedi mynychu'r Gynhadledd Gwobrau Cenedlaethol yn Llanfair-ym-Muallt ar y 27ain o Fawrth lle derbyniodd Cyngor Tref Caerfyrddin y gwobrau canlynol: -

i. Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc – Cymorth a ddarperir gan staff yn Siop De Caerfyrddin ar gyfer disgybl â nam ar y clyw - Cymeradwywyd.
ii. Prosiect Ymgysylltu â'r Gymuned – Prosiect Unigrwydd - Canmoliaeth Uchel.
iii. Prosiect Cynaliadwyedd – Cynhadledd Hinsawdd Plant - Canmoliaeth Uchel.

Cynigiodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths y dylid adnewyddu aelodaeth Un Llais Cymru ar gyfer 2024/25 ac fe'i eilwyd gan y Cyng. Russell Sparks. Roedd pob aelod o blaid ac fe **GYMERADWYWYD** yr aelodaeth.

390. Adroddiad y Maer

Rhestr o Alwadau'r Maer hyd at 27ain o Fawrth 2024

Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r Maer, y Cyng. Wyn Thomas wedi bod yn bresennol yn yr ymrwymiadau canlynol:

Mawrth	
1	Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi
	Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin – Noson Gawl Elusennol
2	Pared Gŵyl Dewi
7	Arglwydd Raglaw Ei Fawrhydi – Seremoni Wobrwyo
15	Ysgol y Model – Hyrwyddo Ras y Maer
20	Uned Myrddin – Beirniadu Boned Pasg
22	Uchel Siryf Dyfed – Seremoni Datgan Swydd
23	Cylch Meithrin Myrddin – Helfa Wyau Pasg

NODODD yr aelodau yr adroddiad**.**

391. Adroddiadau gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol

(i) Mynychodd y Cyng. Emlyn Schiavone Pared Dewi Sant a dywedodd pa mor hyfryd oedd gweld teuluoedd yn mynychu'r digwyddiad.

(ii) Nododd y Cyng. Peter Hughes Griffiths ei fod yn bresennol yn nigwyddiad Gŵyl y Daffodil gan nodi pa mor falch oedd o weld cymaint o bobl yn ei fwynhau. Roedd y Cyng. Peter Hughes Griffiths am ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu gwaith caled yn y cyfnod cyn ac yn ystod y digwyddiad. Dywedodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths wrth aelodau hefyd fod y Gymdeithas Ddinesig wrthi'n cyhoeddi llyfryn i ddathlu a chofio gwaith yr unigolion hynny a anrhydeddwyd â phlac glas yng Nghaerfyrddin. Roedd y Cyng. Peter Hughes Griffiths hefyd wedi mynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Gefeillio Caerfyrddin a llongyfarchodd y Cyng. Emlyn Schiavone fel y Cadeirydd newydd. Dywedodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths mai'r gobaith oedd y byddai aelodau Pwyllgor Lesneven yn ymweld â Thref Caerfyrddin eleni.

(iii) Dywedodd y Cyng. Tom Defis wrth yr Aelodau y byddai cyfarfod o Bwyllgor Siân Johnson yn cael ei gynnal ar 9 Ebrill 2024.

(iv) Nododd y Cyng. Andy King ei bresenoldeb yn yr orymdaith Dydd Gŵyl Dewi.

(v) Roedd y Cyng. Dai Evans wedi mynychu cyfarfod Gŵyl Afon Caerfyrddin a dywedodd mai'r gobaith oedd y byddai'r ŵyl yn cael ei chynnal ar yr 20fed o Orffennaf 2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:01 yh